# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 2110 |
| --- | --- |
| Committee | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Date | 16/03/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Malcolm Cross (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Nigel Daniels (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Mark Holland (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Jonathan Millard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Guest)<br>Cynghorwyr John Hill (Guest)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Guest)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Guest)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Guest)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Guest)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Guest)<br>Cynghorwyr Haydn Trollope (Guest)<br>Cynghorydd Joanna Wilkins (Guest)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Richard Bridge (Swyddog) |

| Item ID | 2170 |
| --- | --- |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 2171 |
| --- | --- |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer:- |

| | |
|---|---|
| | Cynghorwyr G. A. Davies, K. Hayden, W. Hodgins, G. Paulsen, T. Sharrem, H. Trollope. |

| Item ID | 2172 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 2174 |
|---|---|
| Item Title | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2019.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd S. Thomas y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>**<u>Ymddiheuriad am Absenoldeb</u>**<br><br>Nodwyd na chofnodwyd ymddiheuriad am absenoldeb y Cynghorydd Lee Parsons.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r Cofnodion. |

| Item ID | 2287 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020/2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Ymunodd y Cynghorwyr N. Daniels ac S. Thomas â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol yn fyr am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau perthnasol dilynol ynddo:<br><br>➢ Bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol yn rhoi manylion ei |

benderfyniadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ar gyfer 2020/21, penderfynodd y Panel y byddai cynnydd o £350 y flwyddyn yn y cyflog sylfaenol.

- Ni chaiff unrhyw gynnydd ychwanegol ei dalu i ddeiliaid cyflogau uwch yn 2020/21 – dim ond yr cynnydd yn yr elfen cyflog sylfaenol a dderbynnid.

- Mae Cynghorau yn ymroddedig i 'weithio di-bapur' a heb fynediad electronig, byddai Aelodau yn cael eu cyfyngu'n sylweddol yn eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Nid oedd yn addas i'r cyfleusterau y mae Aelodau eu hangen i fod ar gael yn unig o fewn swyddfeydd y cyngor o fewn oriau swyddfa

- Dylai cyfrifoldeb pob Cyngor drwy ei Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd i roi cefnogaeth fod yn seiliedig ar asesiad o anghenion ei Aelodau.

- Roedd y Panel wedi penderfynu na fyddai unrhyw newid i'r cyfraddau milltiroedd y mae gan Aelodau hawl iddynt.

- Ad-dalu costau gofal – nid oes unrhyw newid i ad-dalu costau gofal; mae hyn yn parhau ar uchafswm o £403 y mis pan ddangosir derbynebau gan y gofalwr. Fodd bynnag, mae'r Panel yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth hon gan ei bod yn glir mai ychydig iawn o Aelodau sydd yn ei defnyddio ac ar 13 Chwefror 2020 roedd y Panel wedi cyhoeddi drafft adroddiad atodol 'Egwyddorion yn ymwneud ag Ad-dalu Costau Gofal'. Byddai'r ymgynghoriad ar hyn yn dod i ben ar 9 Ebrill 2020 a gwerthfawrogid sylwadau cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

  Yn ychwanegol, yn flaenorol penderfyniad pob prif Gyngor oedd penderfynu sut y cyhoeddid cost gofal. Ar gyfer 2020/2021, roedd y Panel wedi dileu'r opsiwn hwnnw ac wedi nodi mai dim ond y cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y dylai awdurdodau ei gyhoeddi.

Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau ar yr adroddiad.

**Gweithio Di-bapur –** cyfeiriodd Aelod at baragraff 2.9.2 yr adroddiad h.y. '"Mae Cynghorau yn ymroddedig i 'weithio di-bapur' a heb fynediad electronig, byddai Aelodau yn cael eu cyfyngu'n sylweddol yn eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau".

Gan roi ystyriaeth i bandemig Covid 19 fyddai'n effeithio ar bawb, dyma'n bendant yr amser i'r Cyngor ddod mewn i'r 21fed Ganrif yn nhermau ei ddarpariaeth TGCh a gan nad oedd y Cyngor yn cydymffurfio â'r penderfyniad hwn ar hyn o bryd, roedd angen cyfarch hyn fel mater o frys.

Cydnabu'r Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y pwynt pwysig yn gysylltiedig â phandemig Covid 19 a dywedodd y byddid yn gweithredu ar hyn fel rhan o drefniadau'r Tîm Ymateb Argyfwng. Yn nhermau cydymffurfiaeth, dywedwyd fod y Cyngor yn cydymffurfio gyda phenderfyniad y Panel gan y cynigiwyd darpariaeth TGCh i bob Aelod a gallent gael mynediad i hyn tu allan i oriau swyddfa arferol.

Aeth yr Aelod ymlaen drwy ddweud fod Aelodau wedi derbyn cyngor oedd yn gwrthddweud ei hun o ran dyfeisiau h.y. cynigiwyd gliniaduron i rai ond roedd rhai wedi ei wrthod yn seiliedig ar y cyngor a roddwyd ac wedi prynu dyfeisiau iPad, fodd bynnag mae'r Aelodau hynny oedd yn defnyddio gliniaduron yn dal i brofi problemau hygyrchedd. Daeth i ben drwy ddweud y chredai na chydymffurfir gyda'r penderfyniad hwn a bod angen mynd i'r afael ag ef fel mater o frys.

Dywedodd Aelod arall fod angen arweiniad pellach yn nhermau darpariaeth TGCh a'r hyn fyddai'n gweithio orau i Gynghorwyr.

Dywedodd y Cadeirydd na allai'r Cyngor fynnu fod pob Aelod yn defnyddio TGCh ond y dylai cymorth pellach fod ar gael ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n defnyddio'r dyfeisiau gan fod rhai problemau gyda mynediad, yn neilltuol ar benwythnosau.

Mewn ymateb i gwestiwn am brofi cyfleusterau cynadleddau ffôn/fideo, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y caiff hyn ei drafod a'i ddilyn fel rhan o'r trefniadau llywodraethiant ac y byddai'n rhoi ystyriaeth i ddemograffeg. Nodwyd fod Cyfansoddiad y Cyngor hefyd yn amlinellu trefniadau llywodraethiant mewn sefyllfa argyfwng ac y caiff hyn hefyd ei adolygu fel rhan o'r broses honno.

| | |
|---|---|
| | Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod wedi siarad gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr am y mater hwn a dywedodd y byddai'r trafodaethau hyn yn parhau ac y deuir â hyn i'r maes gwleidyddol cyn gynted ag sy'n bosibl.<br><br>Dywedodd Aelod y gobeithiai fod llesiant staff yn cael ei ystyried yn ofalus gan fod rhai o'r staff yn cwrdd ag aelodau o'r cyhoedd fel rhan o'u dyletswyddau. Dylid rhoi ffocws ar y grŵp sylfaenol hwn o swyddogion.<br><br>Er eglurhad, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau nad oes gan y Cyngor unrhyw awdurdod i ddiwygio penderfyniadau'r Panel ac y rhoddir manylion y Bandiau Cyflog Uwch ar dudalen 38 Adroddiad Blynyddol y Panel. Ychwanegodd y Cadeirydd fod opsiwn i unrhyw unigolyn ddewis yn bersonol ac mewn ysgrifen i dderbyn swm is.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br>CYTUNWYD argymell i'r Cyngor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y penderfyniadau a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2020/2021. |

| Item ID | 2285 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd) ar gyfer ystyriaeth.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau yn fanwl am yr adroddiad sy'n rhoi crynodeb o'r trefniadau cynhwysfawr sydd yn eu lle i gefnogi Aelodau. Nodwyd y pwyntiau a godwyd yn yr eitem gynharach a hysbyswyd Aelodau y ceisir cyngor ac arweiniad yn nhermau darpariaeth TGCh.<br><br>Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau am yr adroddiad.<br><br>**System Rheolaeth Agenda Modern.Gov –** mynegwyd pryder fod Aelodau yn methu gweld eitemau 'cyfrinachol' ar y system |

hon. Yn ychwanegol, ni fedrid gweld yr eitemau hyn ar ‘ap’ iPad.

Tra’n ymrwymo i ddilyn y mater hwn, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y gellid cyrchu eitemau ‘cyfrinachol’ drwy liniaduron Aelodau.

Gwnaed y sylwadau/codwyd y cwestiwn ychwanegol:

- Mae’r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio dyfeisiau android a dylai’r adran Technoleg Gwybodaeth fod wedi gweithredu ar hyn ynghynt.

- Os gofynnir i Aelodau ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau, a fedrid darparu cyfrineiriau ar wahân i gael mynediad i’r safleoedd hyn?

- Mae angen i’r Cyngor ganolbwyntio ar sut y bydd yn symud ymlaen yn nhermau ei drefniadau TGCh yn y dyfodol. Mae un awdurdod lleol wedi sefydlu Gweithgor Aelodau a fyddai’n cynhyrchu ei adroddiad ei hun a defnyddir hyn i atodi’r adroddiadau a ddarperir gan swyddogion.

Cynigiodd y Cadeirydd y dylid gwahodd cynrychiolydd o’r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS) i gyfarfod nesaf y Pwyllgor fel bod Aelodau yn cael cyfle i ofyn y cwestiynau perthnasol hyn. Gan nad yw dyddiad y cyfarfod nesaf wedi ei drefnu eto, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddid yn galw Pwyllgor Arbennig yn benodol i drafod materion yn ymwneud â threfniadau TGCh.

Dywedwyd fod SRS yn cynnal gwaith blaenoriaeth ar hyn o bryd fel rhan o’r trefniadau ymateb argyfwng i bandemig Covid-19 ac roedd y Cadeirydd yn cydnabod y byddai angen i’r gwaith hwnnw gael blaenoriaeth.

CYTUNWYD yn unfrydol ar y llwybr gweithredu hwn.

Mewn pleidlais unfrydol,

CYTUNWYD YMHELLACH i argymell i’r Cyngor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod y Pwyllgor wedi gwneud argymhellion penodol i’r Cyngor eu hystyried cyn eu cymeradwyo.